Cymdeithas
**Cyfieithwyr**
**Cymru**

# Polisi Cwyno Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

## 1. Pwrpas

Mae staff, Bwrdd ac aelodau unigol y Gymdeithas yn ganolog i lwyddiant Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Mae'n bwysig y dylent allu mynegi unrhyw gwynion neu bryderon a bod a hyder y bydd eu cwyn yn cael ei drin yn deg, a pharch, yn brydlon ac yn gyfrinachol.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno ac ymdrin â chwynion gan staff, aelodau bwrdd neu aelodau unigol y Gymdeithas.

Mae'r Gymdeithas yn ymrwymo i ddelio'n wrthrychol, yn adeiladol ac yn deg ag unrhyw gŵyn all godi.

Disgwylir yr ymdrinnir â'r rhan fwyaf o gwynion mewn ffordd anffurfiol, naill ai trwy drafod â'r Prif Swyddog neu'r Cadeirydd, ond bydd y gweithdrefnau isod ar gael ar gyfer materion sy'n gofyn am strwythur mwy ffurfiol.

Nid yw defnyddio'r gweithdrefnau hyn yn effeithio ar unrhyw hawliau statudol.

## 2. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff, aelodau Bwrdd ac aelodau unigol y Gymdeithas.

## 3. Egwyddorion Sylfaenol

- **Tegwch:** Sicrhau bod pob cwyn yn cael ei thrin yn deg ac yn wrthrychol.
- **Cyfrinachedd:** Sicrhau cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â chwynion.
- **Datrys Prydlon:** Ymdrechu i ddatrys cwynion cyn gynted â phosibl.

## 4. Gweithdrefnau Cwyno

### 4.1 Cam 1: Cwyno Anffurfiol

- Os yw aelod o staff, aelod o'r bwrdd neu aelod cyffredin o'r Gymdeithas yn teimlo bod ganddynt gŵyn, fe'i hanogir i drafod y mater yn anffurfiol gyda'r Prif Swyddog neu Gadeirydd y Bwrdd yn y lle cyntaf.
- Os yw'r cwyn am y Prif Swyddog, neu aelod o'r Bwrdd, dylid cysylltu â'r Cadeirydd.
- Os yw'r cwyn am y Cadeirydd, dylid cysylltu â'r Prif Swyddog.
- Gall trafodaeth anffurfiol ddatrys llawer o faterion yn gyflym ac yn effeithlon.

### 4.2 Cam 2: Cwyn Ffurfiol

- Os nad yw'r mater wedi'i ddatrys trwy’r cam anffurfiol, neu os yw’r achwynydd yn credu fod y mater yn rhy ddifrifol i’w drafod yn anffurfiol, gall y person wneud cwyn ffurfiol drwy gyflwyno cwyn ysgrifenedig i'r Prif Swyddog neu Gadeirydd y Bwrdd.
- Dylai'r gŵyn ysgrifenedig gynnwys: disgrifiad clir o'r mater, y camau a gymerwyd hyd yma i geisio datrys y mater, ac unrhyw dystiolaeth berthnasol.

### 4.3 Ymchwiliad

- Bydd y faith fod cwyn wedi dod i law yn cael ei gydnabod o fewn 5 diwrnod gwaith.
- Bydd ymchwiliad trylwyr yn cael ei gynnal i'r materion a godir yn y gŵyn.
- Bydd yr ymchwiliad yn cynnwys cyfweliadau gyda'r sawl sy'n cwyno, unrhyw dystion, ac unrhyw unigolyn arall sy'n gysylltiedig â'r mater.
- Oni bai fod y gŵyn yn ymwneud â’r Prif Swyddog, bydd o/hi yn arwain yr ymchwiliad gyda chymorth aelod cyffredin o’r Bwrdd.
- Os yw’r gŵyn yn ymwneud â’r Prif Swyddog, bydd y Cadeirydd yn arwain yr ymchwiliad gyda chymorth aelod cyffredin o’r Bwrdd.

### 4.4 Penderfyniad

- Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, bydd penderfyniad ysgrifenedig yn cael ei wneud a'i gyfathrebu i'r sawl sy'n cwyno o fewn 15 diwrnod gwaith.
- Bydd y penderfyniad yn cynnwys crynodeb o'r canfyddiadau a'r camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd os oes angen.

### 4.5 Apêl

- Os nad yw'r sawl sy'n cwyno yn fodlon â'r penderfyniad, gallant gyflwyno apêl ysgrifenedig i'r Bwrdd o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn y penderfyniad.
- Bydd apêl yn cael ei hadolygu gan banel annibynnol o'r bwrdd nad oedd yn rhan o'r ymchwiliad gwreiddiol.
- Bydd penderfyniad terfynol yr apêl yn cael ei gyfathrebu o fewn 15 diwrnod gwaith o dderbyn yr apêl.

## 5. Cyfrifoldebau

- **Prif Swyddog a Chadeirydd y Bwrdd:** Yn gyfrifol am sicrhau bod pob cwyn yn cael ei thrin yn ôl y gweithdrefnau hyn.
- **Staff ac Aelodau Bwrdd:** Yn gyfrifol am gydweithio'n llawn ag unrhyw ymchwiliad sy'n cael ei gynnal.

## 6. Monitro ac Adolygu

- Bydd pob cwyn yn cael ei gofnodi a'i monitro i nodi unrhyw dueddiadau neu faterion cyffredinol y mae angen eu trin.
- Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol neu wrth i amgylchiadau newid, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol.

**Cymeradwywyd: Gorffennaf 2024**

**Dyddiad Adolygu Nesaf: Gorffennaf 2027**